# Newyddion am gapel hanesyddol Dolwyddelan Capel Bethel


Yn ddiweddar, bu i Grŵp Gweithredu Bethel (BAG) anfon nifer o holiaduron at gwmnïau ac unigolion sydd â diddordeb uniongyrchol yn Nolwyddelan. Cafwyd ymateb gwych.

Mae brwdfrydedd yr ymatebwyr wedi bod yn 10 allan o 10 ac os bydd y prosiect hwn yn mynd yn ei flaen, mae gennym lawer o unigolion sy'n barod i wirfoddoli eu hamser i helpu i adnewyddu Bethel a chael y lle i redeg. Mae syniadau newydd ar gyfer defnydd Bethel hefyd wedi'u darparu sy'n cynnwys:

- Gweithgareddau awyr agored ar gyfer gofod segur y tu ôl i'r capel.
- Gallu arddangos hanes Dolwyddelan gan gynnwys arteffactau i ymwelwyr a thrigolion.
- Gwybodaeth i dwristiaid i gynnwys mapiau o deithiau cerdded a llwybrau beicio mynydd lleol.
- Grwpiau mam a phlant bach.
- Y gallu i ddarparu ar gyfer nifer mwy o bobl gyda manteision ychwanegol toiledau, dŵr poeth / oer ac ati.
- Cyrsiau addysgol, gweithdai ac arddangosiadau gan gynnwys dosbarthiadau gyda'r nos ar gyfer y gymuned leol a thu hwnt.
- Y gallu i rentu/gwerthu lle i grefftwyr lleol werthu eu cynnyrch.
- Gofal cŵn dyddiol a gwasanaethau anifeiliaid eraill.
- Canolbwynt i drigolion iau y pentref (plant a phobl ifanc yn eu harddegau).
- Grwpiau cyfeillgarwch i'r rhai sy'n teimlo'n unig.
- Marchnad cynnyrch lleol misol.
- Grwpiau cyfnewid llyfrau / darllen.

Roedd lleoliad Capel Bethel yn arwyddocaol o fewn y syniadau gafodd eu cyflwyno. Mae nifer o sylwadau wedi'u gwneud ynglŷn â'r budd o gael canolfan gymunedol ganolog a gweladwy, sy'n hawdd i ymwelwyr a'r gymuned ei gyrraedd a'i arsylwi, boed ar droed neu yn teithio ar hyd yr A470. Gallai hyn ategu'r cyfleusterau presennol y mae'r Pafiliwn yn ei ddarparu.

Os ydych chi'n rhannu ein gweledigaeth, ymunwch gyda ni. Rydym ni'n chwilio am wirfoddolwyr a rhoddion. Efallai yr hoffech chi ymuno â ni yn y cyfarfod grŵp nesaf?



Cysylltwch am fwy o wybodaeth . . .
Ysgrifennydd BAG: Helena Wroblewska, 07828 761114,
Helena_w@btinternet.com
Cadeirydd BAG: Richard Griffin, 07736 059925,
Richard_griffin@btinternet.com
Trysorydd BAG: Jon Reynolds, 07722 040778,
Jon1reynolds@outlook.com